
# Eco-Sgolion a'r Cwricwlwm i Gymru




Eco-Schools
Eco-Sgolion

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

cadwch gymru'n daclus
keep wales tidy

# Gwybodaeth gefndir

Egwyddor sylfaenol y rhaglen Eco-Sgolion yw bod ymagwedd o'r gwaelod i fyny, wedi ei arwain gan ddisgyblion tuag at wella'r ysgol a'r ardal leol yn amgylcheddol yn hanfodol i gyflawni a chynnal ymagwedd ysgol gyfan.  Po fwyaf yw perchnogaeth y disgyblion, y mwyaf llwyddiannus yw'r rhaglen mewn ysgol.

Mae'r ymagwedd hon yn cyd-fynd ag ymagwedd y cwricwlwm newydd i Gymru yn berffaith, gan alluogi disgyblion i lywio cyfeiriad eu dysgu a'r themâu a'r materion sydd yn cael eu cynnwys.

Mae diddordeb naturiol hefyd gan lawer o ddisgyblion yn y Byd o'u hamgylch a'r heriau y mae ein planed yn eu hwynebu.  Maent eisiau bod yn Ddinasyddion Moesegol a Gwybodus Cymru a'r Byd.

Mae nawr, felly, yn amser delfrydol i ystyried integreiddio elfennau o'r rhaglen Eco-Sgolion ymhellach i waith dosbarth er mwyn i'r holl ddisgyblion yn yr ysgol (ac oedolion) chwarae eu rhan.

Gellir cyflawni hyn yn effeithiol ac ategu'r hyn sydd yn cael ei ddysgu yn y dosbarth, yn hytrach na'i fod yn ychwanegiad, mewn amrywiaeth o ffyrdd.



Activity




# Gweithgaredd diwedd dydd staff

## Gwybodaeth Gefndir

Efallai y bydd angen i staff yn yr ysgol ddatblygu dealltwriaeth o’r ffordd y gall y rhaglen Eco-Sgolion ategu canlyniadau y Cwricwlwm i Gymru.  Mae’r gweithgaredd syml hwn yn helpu i amlygu ble mae gorgyffwrdd a gobeithio ysgogi trafodaeth am y ffordd y gellir cynnwys yr holl ddisgyblion yn y broses honno.

# 4 Diben, 7 cam

## Gweithgaredd

1. Paratowch y gweithgaredd trwy argraffu'r datganiadau isod yn ogystal â'r saith cam Eco-Sgolion. Torrwch y datganiadau i fyny fel bod 1 datganiad ar bob darn o bapur. Efallai byddwch eisiau argraffu sawl copi os oes llawer o staff addysgu yn eich ysgol.
2. Gwasgarwch y papurau saith cam dros ddesg. Rhowch y darnau o ddatganiad i'r grŵp a gofynnwch iddynt weld a ydynt yn gallu cysylltu'r datganiad o ganlyniad i un neu fwy o'r saith cam Eco-Sgolion. E.e. *gallai 'Rhoi o'u hegni a'u sgiliau er budd pobl eraill ac yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith' gyd-fynd yn dda gyda Chynllun Gweithredu.*
3. Os ydych wedi cwblhau'r gweithgaredd mewn mwy nag 1 grŵp, caniatewch amser i bob grŵp adolygu rhai eraill ac edrych am debygrwydd neu wahaniaethau.
4. A oedd yna ddatganiadau nad oedd yn cyd-fynd? A oedd yna rai oedd yn cyd-fynd â sawl un o'r camau?

## Syniadau Ymestyn:

- A allai pob arweinydd dosbarth/adran ystyried derbyn testun o'r adolygiad Amgylcheddol i'w gwblhau yn y dosbarth? Trafodwch yr opsiynau ar gyfer hyn yn arwain at ddatblygu targedau wedi eu harwain gan y dosbarth a allai fwydo i mewn i'r cynllun gweithredu cyffredinol hwn.
- Sut gall dysgu wedi ei arwain gan ddisgyblion droi'n weithredoedd dros newid wedi eu harwain gan ddisgyblion? Trafodwch addysgu thematig presennol a materion amgylcheddol sydd wedi codi. A oes cyfle i greu gweithredu neu darged cadarnhaol o ganlyniad i'r hyn sydd wedi cael ei ddysgu? E.e. Camau ymarferol i ddangos gostyngiad wedi ei fesur yn ôl troed carbon disgybl / ysgol ar ôl dysgu am yr effaith Tŷ Gwydr.


# Adnodd – 4 Datganiad pwrpas

| Dysgwyr uchelgeisiol a galluog | Unigolion iach a hyderus |
| --- | --- |
| **Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n:** Gosod safonau uchel iddynt eu hunain ac yn chwilio am heriau ac yn eu mwynhau. | **Unigolion iach, hyderus sydd:** Â gwerthoedd sicr ac sy’n sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol. |
| **Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n:** Datblygu corff o wybodaeth ac yn meddu ar y sgiliau i gysylltu a chymhwyso'r wybodaeth honno mewn gwahanol gyd-destunau. | **Unigolion iach, hyderus sy’n:** Meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol trwy ddatblygu hyder, gwytnwch ac empathi. |
| **Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n:** Ymholgar ac yn mwynhau datrys problemau. | **Unigolion iach, hyderus sy’n:** Cymhwyso gwybodaeth am effaith diet ac ymarfer corff ar iechyd corfforol a meddyliol yn eu bywydau bob dydd. |
| **Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n:** Gallu cyfathrebu’n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, drwy’r Gymraeg a’r Saesneg. | **Unigolion iach, hyderus sy’n:** Gwybod sut i ddod o hyd i'r wybodaeth a'r gefnogaeth i gadw'n ddiogel ac yn iach. |
| **Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n:** Gallu egluro'r syniadau a'r cysyniadau y maent yn dysgu amdanynt. | **Unigolion iach, hyderus sy’n:** Cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol. |
| **Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n:** Gallu defnyddio rhif yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau. | **Unigolion iach, hyderus sy’n:** Take measured decisions about lifestyle and manage risk. |
| **Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n:** Deall sut i ddehongli data a chymhwyso cysyniadau mathemategol. | **Unigolion iach, hyderus sydd:** Â’r hyder sydd ei angen i gymryd rhan mewn perfformiadau. |
| **Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n:** Defnyddio technolegau digidol yn greadigol i gyfathrebu a dod o hyd i wybodaeth a’i dadansoddi. | **Unigolion iach, hyderus sy’n:** Ffurfio perthnasoedd cadarnhaol wedi’u seilio ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd. |
| **Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n:** Ymchwilio a gwerthuso eu canfyddiadau’n feirniadol ac yn barod i'w ddysgu trwy gydol eu hoes. | **Unigolion iach, hyderus sy’n:** Wynebu heriau ac yn eu trechu. |
| | **Unigolion iach, hyderus sydd:** Â’r sgiliau a’r wybodaeth sydd eu hangen i ddelio â’u bywyd pob dydd mor annibynnol ag y gallant ac yn barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas. |

| Dinasyddion egwyddorol, gwybodus | Cyfranwyr mentrus, creadigol |
|---|---|
| **Dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n:**<br>Canfod, yn gwerthuso ac yn defnyddio tystiolaeth wrth ffurfio barn.<br>**Dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n:**<br>Trafod materion cyfoes ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd.<br>**Dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n:**<br>Deall ac yn arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd.<br>**Dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n:**<br>Deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd wrth ddewis a gweithredu.<br>**Dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n:**<br>Wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol.<br>**Dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n:**<br>Parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol.<br>**Dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n:**<br>Dangos eu hymrwymiad i sicrhau cynaliadwyedd y blaned ac yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd. | **Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n:**<br>Cysylltu ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a chynhyrchion.<br>**Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n:**<br>Meddwl yn greadigol er mwyn ail-lunio a datrys problemau.<br>**Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n:**<br>Adnabod cyfleoedd ac yn manteisio arnynt.<br>**Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n:**<br>Mentro'n bwyllog.<br>**Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n:**<br>Arwain ac yn chwarae rolau gwahanol mewn timau'n effeithiol ac yn gyfrifol.<br>**Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n:**<br>Mynegi syniadau ac emosiynau drwy wahanol gyfryngau.<br>**Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n:**<br>Rhoi o'u hegni a'u sgiliau fel y bydd pobl eraill yn elwa ac yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith. |

## Adnodd: Saith cam Eco-Sgolion




Adolygiad Amgylcheddol
Eco-Schools
Eco-Sgolion
2
cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

# Cynllun gweithredu




Eco-Schools
3
Eco-Sgolion

cadwch gymru'n daclus
keep wales tidy


# Monitro a gwerthuso



Eco-Schools
4
Eco-Sgolion

cadwch gymru'n daclus
keep wales tidy

# Cysylltu â'r cwricwlwm




Eco-Schools
Eco-Sgolion

5

cadwch gymru'n daclus
keep wales tidy

# Hysbysu y chynnwys



Eco-Schools
Eco-Sgolion

6

cadwch gymru'n daclus
keep wales tidy

# Eco-Gôd




Eco-Schools
Eco-Sgolion

7

cadwch gymru'n daclus
keep wales tidy

Eco-Schools
Eco-Sgolion

cadwch gymru'n daclus
keep wales tidy

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru

Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni wedi ei gyfyngu trwy warant. Rhif Cwmni: 4011164 Rhif Elusen: 1082058 Rhif TAW: 850 3958 13
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850 3958 13